

226/01

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAEN SYLFAENOL

A.M. DYDD IAU, 24 Mai 2007

(2 awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn, **un** cwestiwn o Adran A (Barddoniaeth), ac **un** cwestiwn o Adran B (Nofel).

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiwn ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 25 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir hyn yn glir ar waelod pob cwestiwn (ynghyd â'r marciau am isgwestiynau).

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

	Tudalen
ADRAN A – BARDDONIAETH	2
ADRAN B – NOFEL	5
UN NOSON DYWYLL (T. Llew Jones)	6
LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas)	8
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	10
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	12

ADRAN A – BARDDONIAETH

Atebwch un cwestiwn o'r adran hon.

THEMÂU: NATUR; IEUENCTID A BYWYD CYFOES;
RHYFEL A THRAIS; PIGO CYDWYBOD; CYMRU A CHYMREICTOD
(o'r cyfrolau *Sbectol Inc* a *Hoff Gerddi Cymru*)

Naill ai,

1. Ystyriwch y gerdd 'Gail Fu Farw'.

(a) Nodwch i ba thema y mae'r gerdd yn perthyn ac enwch y bardd. [1]

(b) Yn eich geiriau eich hun, nodwch yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud yn y gerdd. [5]
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol. [2]

(c) Enwch fesur y gerdd. Esboniwch nodweddion y mesur hwn. [2]

(ch) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol**.

- Enwch y nodweddion.
- Dyfynnwch enghraifft o'r tair nodwedd.
- Dywedwch pam y mae'r nodweddion hyn yn effeithiol.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, trosiad, cyferbynnu / gwrthgyferbynnu, cymhariaeth / cyffelybiaeth, cytseinedd / cyflythreniad ac ati. [9]

(d) Cerdd arall yn yr un thema yw 'Glas'. Ydy'r gerdd hon yn eich gwneud yn hapus? Rhowch **ddau** reswm. [2]

(dd) Ydy'r thema hon wedi apelio atoch chi?
Soniwch am y **ddwy** gerdd yn eich ateb. [2]
Cofiwch ei bod yn bwysig i chi **ddyfynnu** o'r cerddi. [2]

[25]

Neu,

2. Dewiswch eich **dwy** hoff gerdd o themâu **gwahanol**.

(a) Rhowch deitlau'r **ddwy** gerdd. [1]

(b) Yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch am gynnwys y **ddwy** gerdd mewn paragraffau ar wahân. [5]
Rhaid **dyfynnu** o'r **ddwy** gerdd wrth ateb. [2]

(c) Dewiswch **un** o'r cerddi a enwyd yng nghwestiwn 2(a).
Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** yn y gerdd honno.

- Enwch y nodweddion.
- Dyfynnwch enghraifft o'r tair nodwedd.
- Dywedwch pam y mae'r nodweddion hyn yn effeithiol.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, trosiad, cyferbynnu / gwrthgyferbynnu, cymhariaeth / cyffelybiaeth, cytseinedd / cyflythreniad ac ati. [9]

(ch) Enwch fesur **un** o'r cerddi. Esboniwch nodweddion y mesur hwn. [2]

(d) Pam y mae'r **ddwy** thema hon wedi apelio atoch?
Rhowch **ddau** reswm am bob thema. [4]
Cofiwch ei bod yn bwysig i chi **ddyfynnu** o'r cerddi. [2]

[25]

TUDALEN WAG

ADRAN B – NOFEL

*Atebwch **un** cwestiwn o'r adran hon.*

UN NOSON DYWYLL – T. Llew Jones

3. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Un Noson Dywyll**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Pwy yw Catrin?
Ydy hi'n bwysig i'r nofel? Pam? [3]
- (b) Mae Tomos Wiliam yn credu bod rhywun yn ei ddilyn.
Pwy fyddai'n dilyn Tomos Wiliam a pham? [3]
- (c) Beth sy'n digwydd i Tomos Wiliam wedi'r darn hwn? [3]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinell 17 y darn.
“*Y...na...y...faint sy arna i i chi?*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 22 y darn.
“*Fe deimlai ei wyneb yn llosgi o dan ei farf drwchus.*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 38-40 y darn.
“*Edrychodd i weld ble'r oedd y dyn oedd wedi bod yn aros ei dro - ond nid oedd sôn amdano yn un man. Ble'r oedd e wedi mynd?*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Dychmygwch mai **chi yw Catrin**.
Yn eich barn chi, **pa fath o gymeriad yw eich brawd Tomos Wiliam?**
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae'n ymddwyn.
Wrth ysgrifennu cofiwch mai chi yw Catrin.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai **chi yw Gwen**.
Ysgrifennwch gofnod yn ei **dyddiadur** ar ddiwedd y nofel hon. [5]
- [25]**

Ar y gair agorodd y drws a cherddodd dyn i mewn i'r siop. Nid oedd Tomos Wiliam yn ei adnabod, ac eto roedd rhywbeth yn ei gylch oedd yn gyfarwydd.

'Rown i'n meddwl wir,' meddai'r hen siopwr. 'Rown i'n methu'n lân eich gweld chi mewn siwt o hwn, Tomos.'

Edrychodd Tomos Wiliam braidd yn wguo arno. Doedd e ddim yn hoffi'r awgrym nad oedd e'n ddigon da i wisgo siwt o'r brethyn llwyd. Ond gwyddai'n iawn beth oedd yr hen siopwr yn 'i feddwl. Fe fyddai gwladwr fel fe yn edrych yn od mewn unrhyw beth ond mewn siwt o frethyn cartre garw. 5

Gwelodd Daniel Dafis yn tynnu ei linydd mesur oddi am ei wddf. 'Y-teirllath, Tomos?'

Doedd Catrin ddim wedi dweud faint oedd eisiau. A oedd angen teirllath? Taflodd lygad ar y dieithryn oedd yn disgwyl ei dro. Roedd hwnnw'n edrych yn graff arno. 10

'Ie, teirllath, Daniel Dafis,' meddai. Dechreuodd y siopwr fesur. Yna cydiodd mewn siswrn mawr o'r drôr o dan y cownter. Fe deimlai Tomos Wiliam yn anesmwyth iawn. Roedd e newydd sylweddoli y byddai rhaid iddo dynnu'r papur pumpunt allan i dalu. Byddai'n dda ganddo pe bai wedi gallu gwneud hynny cyn i'r dyn diarth 'ma ddod mewn i'r siop. 15

'Dyna chi 'te, Tomos. Oes rhywbeth arall nawr?'

'Y . . . na . . . y . . . faint sy arna i i chi?'

'Dwy bunt ond pedwar swllt, Tomos, os gwelwch chi'n dda.'

Tynnodd Tomos Wiliam y papur o'i boced. Estynnodd ef i'r dyn bach. Edrychodd hwnnw'n syn arno. 20

'Papur pumpunt, Tomos!'

'Ie.' Fe deimlai ei wyneb yn llosgi o dan ei farf drwchus. Beth oedd yn bod ar y dyn? meddylodd. A oedd e'n credu ei fod wedi ei ddwyn?

'Fyddwn ni ddim yn trafod y papure 'ma'n amal,' meddai'r teiliwr. A dweud y gwir, roedd Daniel Dafis yn llawer mwy cyfarwydd â chael ei dalu mewn arian mân – sylltau, chwechau, ceiniogau, a hyd yn oed ddimeiau – arian wedi eu crynhoi'n galed am fisoedd maith. Anaml iawn y byddai ffermwyr cefnog yr ardal yn dod i'r siop â phapur pumpunt. Gwŷr bonheddig y Cilgwyn a'r Llysnewydd oedd yn medru tynnu papurau pumpunt o'u pocedi heb achosi syndod. 25

Roedd Tomos Wiliam yn gwingo. Gwyddai fod y siopwr bach yn ei ffordd fusneslyd yn disgwyl iddo ddweud wrtho sut roedd e wedi llwyddo i ddod yn berchen papur pumpunt, ac i bwy roedd e wedi prynu'r brethyn llwyd. 30

'Os Paciwech chi'r brethyn 'te, Daniel Dafis,' meddai'n sychlyd.

'Wrth gwrs. A'r newid 'nôl – rhaid peidio anghofio hwnnw. Hym?'

Roedd y siopwr wedi deall o'r diwedd nad oedd Tomos Wiliam am iddo roi ei big i mewn yn ei fusnes. Daliodd y papur pumpunt i fyny at y golau o'r ffenest, ac edrychodd yn graff arno. Unwaith eto teimlodd Tomos Wiliam ei hun yn gwrido a diolchodd fod ganddo farf lawn. Roedd y siopwr yn amau a oedd y papur yn un iawn, neu yn arian ffug! 35

Wedi cael ei newid, cydiodd Tomos Wiliam yn ei barsel a mynd am y drws. Edrychodd i weld ble'r oedd y dyn oedd wedi bod yn aros ei dro – ond nid oedd sôn amdano yn un man. Ble'r oedd e wedi mynd? Peth rhyfedd iawn 'i fod e wedi mynd allan o'r siop heb ofyn am ddim! 40

LLINYN TRÔNS – Bethan Gwanas

4. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Llinyn Trôns**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Pwy yw Donna?
Ydy hi'n bwysig i'r nofel? Pam? [3]
- (b) Beth sy'n digwydd i Nobi a Gags wedi'r darn hwn?
Sut y maen nhw'n ymateb i hyn? [3]
- (c) Pa bethau eraill y mae'r criw yn eu gwneud yn ystod yr wythnos yn y gweryll? [3]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinell 2 y darn.
“*Roedd Nobi'n mynd fel trê, ond ddim y ffordd roedd o isio mynd.*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 28 y darn.
“*Ro'n i rhwng Gags a Tecs, yn frechdan rhwng y Pecs.*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 34-35 y darn.
“*'Dach chi'm yn fy nghredu i?' holodd Donna.*
Nac oedd.”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Dychmygwch mai **chi yw Gwenan**.
Yn eich barn chi, **pa fath o gymeriad yw eich ffrind Olwen?**
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae'n ymddwyn.
Wrth ysgrifennu cofiwch mai chi yw Gwenan.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai **chi yw Tecs Pecs**.
Ysgrifennwch gofnod yn ei **ddyddiadur** ar ddiwedd y nofel hon. [5]
- [25]

Rhywsut, ro'n i'n deall y gêm ganwio 'ma'n syth. Roedd o'n hawdd, ac ro'n i'n gallu mynd râl boi. Roedd Nobi'n mynd fel trê, ond ddim y ffordd roedd o isio mynd. Bob tro roedd o'n dyrnu mynd am rywle, roedd o'n dechrau troi i'r dde ac yn mynd mewn cylchoedd. Wedyn roedd o'n gwylltio, a mwya yn byd roedd o'n gwylltio, mwya yn byd roedd o'n mynd mewn cylchoedd. Roedd yr awyr yn biws, bron mor biws â'i wyneb o. Roedd Tecs yn dangos ei hun, wedi bod yn canwio o'r blaen, debyg iawn. Mynd yn araf a phwylllog roedd Dei, a doedd na'm golwg ry hapus arno fo gan fod hanner ei ben-ôl o'n gorlifo dros ochr ei ganw. Tueddu i aros yn ei hunfan roedd Gwenan, yn poeni bod y gwynt yn mynd i'w throï hi drosodd os oedd hi'n codi'i phadl yn uwch na thair modfedd o'r dŵr. Roedd Olwen wrth ei bodd, yn hymian canu iddi hi ei hun. Roedd Gags yn mynd yn grêt hefyd, ond doedd o'm yn hymian. Jest chwerthin am ben Nobi yr oedd o, a hwnnw'n gwylltio'n waeth.

“Mae 'na rwbath yn bod ar y blydi canw yma, Donna!”

“Sori? Glywes i rywun yn rhegi rŵan?”

Tawelwch.

“Do. Sori. Ond yli, mae 'na rwbath yn bod ar hwn, go iawn rŵan, mae'r *steering* wedi cocio fyny neu rwbath.”

Gwenodd Donna.

“Ocê ta, oes 'na rywun yn fodlon newid canw efo Nobi?”

Tawelwch eto. Roedd hi'n hollol amlwg fod 'na'm byd o'i le ar ganw Nobi, ac y bysai'r un peth yn union yn digwydd iddo fo mewn unrhyw ganw, ac y bysai hynna'n ei wylltio'n waeth. Felly mi wnes i nodio 'mhen.

“Dim ots gen i,” meddwn.

“Iawn!” meddai Donna. “Pawb i rafftio i fyny o gwmpas Nobi 'ta!”

Felly dyma ni i gyd yn canwio ato fo a gneud math o rafft, efo'r canws i gyd wrth ochr ei gilydd yn wynebu'r un ffordd, a'r padls dros flaen y cychod. Padlodd Donna i'n hwynebu ni.

“Pawb i afael yn y canws bob ochr i chi.”

Rhegodd Nobi. Roedd o drws nesa i Dei, a doedd na'm llawer o le i roi ei law rhwng bloneg Dei a rhimyn y canw. Ro'n i rhwng Gags a Tecs, yn frechdan rhwng y Pecs.

“Iawn,” meddai Donna. “Nobi a Llion, newidiwch lefydd.”

“Y!” ebychodd Nobi. “No wê!”

“Mae o'n berffaith ddiogel,” gwenodd Donna. “Ty'd, dos di ar hyd blaen y canws, ac mi fedar Llion fynd rownd y cefn.”

Edrychodd Nobi a finnau ar ein gilydd. Oedd hi'n cymryd y mic 'ta be?

“'Dach chi'm yn fy nghredu i?” holodd Donna.

Nac oedd. Roedd hyd yn oed Tecs wedi cau ei geg ac yn edrych reit bryderus.

“Olwen? Wnei di godi ar dy draed plis?”

Oeddodd Olwen am 'chydig, yna troi at Gwenan.

“Gafaela'n dynn, ocê? A chithau, syr.”

Ufuddhaodd Gwenan a Tecs yn ddi-gwestiwn, a dyma Olwen yn codi ar ei thraed yn araf a braidd yn sigledig, ond mi lwyddodd.

“Hawdd tydi?” meddai Donna. “A rŵan, dos rownd y canws i gyd ac yn ôl i dy le.”

Gwenodd Olwen, a chyn pen dim, roedd hi'n cerdded dros flaen canw Mr Pecs a finnau ac yn mynd rownd gan chwerthin. Ella bod ganddi goesau hyll, ond mae ganddi gyts.

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR - Alun Jones

5. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Pwy yw Gladys Drofa Ganol?
Ydy hi'n bwysig i'r nofel? Pam? [3]
- (b) Pam y mae Richard Jones yn mynd â Now i'r Wylan Wen? [3]
- (c) Beth y mae Richard Jones yn ei wneud wedi'r darn hwn yn y nofel? [3]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinell 2 y darn.
"Yn union. Yr oedd wedi dyfalu'n gywir. Tan Ceris yr ail."
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinell 20 y darn.
"Aeth wyneb Richard bob lliw."
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 42-43 y darn.
"Ond wedyn, dyna oedd ei nai, un cwestiwn rhyfedd, un rhyfedd o'i streipen wen i'w 'sgidiau sglein."
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Dychmygwch mai **chi yw Einir**.
Yn eich barn chi, **pa fath o gymeriad yw Meredydd**?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae'n ymddwyn.
Wrth ysgrifennu cofiwch mai chi yw Einir.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [5]
- (dd) Dychmygwch mai **chi yw Now Tan Ceris**.
Ysgrifennwch gofnod yn ei **ddyddiadur** ar ddiwedd y nofel hon. [5]
- [25]

Daethant at Yr Wylan Wen a pharciodd Richard y car o flaen y drws. Clodd y car a dilynodd ei ewythr drwy'r drws. Yn union. Yr oedd wedi dyfalu'n gywir. Tan Ceris yr ail.

Syllodd yn syn braidd ar y croeso a gafodd ei ewythr. Yn naturiol ddigon, pobl ddieithr oeddynt oll iddo ef, ond os oedd ei ewythr yn dweud y gwir a'i fod yn dod yma bob nos Fercher, nid oedd raid i'r bobl yn y bar bach ei groesawu fel pe bai wedi bod i ffwrdd hanner ei oes. Adwaith plentynnaidd yn nhyb Richard oedd gwneud y fath stŵr pan nad oedd ei ewythr ond wedi newid ei noson. 5

Yr oedd Now wrth y bar. Trodd at Richard.

“Be gymri di?”

“O, fi sy'n talu.” 10

Rhuthrodd Richard i'w boced i estyn ei waled, a chiliodd Now yn ôl yn araf. Wedi'r cyfan, wedi cael ei wadd yno'r oedd ef. Os gwadd, gwadd.

Edrychodd Robin Williams ar Richard.

“Ti biau'r dyn dieithr 'ma Now?”

“Pawb â'i fusnes 'i hun 'tê.” 15

“Bydd fel'na 'ta. Ydych chi'n perthyn?”

“O ydym, mi'r ydym ni'n perthyn,” meddai Now a rhyw olwg synfyfyriol yn ei lygaid. “Dyna pam y daeth o acw. I edrych sut gyflwr ydw i ynddo fo ac i geisio cael gwybod faint sy gen i i'w adael ar f'ôl iddo fo.” 20

Aeth wyneb Richard bob lliw. Bu bron iddo â throï ar ei sawdl a mynd allan, ond ailfeddyliodd a cheisiodd chwerthin gyda phawb arall. Penderfynodd y dylai dosturio dros bawb a oedd yma; peth i dosturio drosto oedd dylni, nid peth i wylltio'n ei gylch. 20

Ar ôl cael y diodydd, mynnodd Richard eu bod yn mynd drwodd i'r parlwr bach a oedd yn wag, er mwyn iddo gael mwy o wybodaeth am y tai gan ei ewythr, ac er mwyn bod cyn belled ag oedd modd oddi wrth y ffyliaid busneslyd yn y bar bach. Yn raddol, deuai i sylweddoli mai tipyn o dynnwr coes oedd ei ewythr. Nid oedd yn deall hynny; methai â dirnad cymhelliad y neb a wnâi bethau felly, rhyw lol fabiaidd a weddai'n well i lwyfan theatr neu iard ysgol, ond nid i bobl mewn oed yn eu llawn synhwyrâu. 25

Onid yr oedd ei ewythr yn brysur fynd i dymer dda wrth i'w wydryn wagio. Yr oedd yn hen bryd rhoi cynnig arni eto. 30

“Mae 'ma le braf,” palodd gelwyddau, “does ryfadd 'mod i wrth fy modd yma ers talwm.”

“Y lle gora, wel'di,” atebodd Now wrth estyn ei bwrs baco. “Wyt ti am drïo rowlan rŵan 'ta?”

“Dim diolch. Ys gwn i pwy sy'n byw yn yr hen gornel fach honno o'r cae rŵan?”

“Y?”

“Wyddoch chi'r lle'r oeddwn i'n pabellu ers talwm? Ym mhen draw'r cae bach hwnnw? Roeddwn i'n meddwl mai fi oedd biau'r llecyn a'r cae a'r pentre a'r mynydd. Mi fyddwn i'n rheoli'r holl fyd o'r babell fach.” 35

“Wel aros di, mae'n anodd deud fel hyn braidd, ond mi fyddwn i'n meddwl mai rhywle'n ymyl tŷ Gladys neu dŷ Wil Parri fyddai dy babell di. Synnwn i ddim mai rhywle'r ffor' honno oedd terfyn yr hen gae bach.” 40

“Pwy ydi Gladys a Wil Parri?”

Cododd Now ei aeliau. Cwestiwn braidd yn rhyfedd i ddyn hollol ddieithr, meddyliai. Ond wedyn, dyna oedd ei nai, un cwestiwn rhyfedd, un rhyfedd o'i streipen wen i'w 'sgidiau sglein.

“Duw, mi wnâi Gladys wraig dda i ti,” meddai gan wenu'n braf i'w beint. “Pam na sythi di ar ei hôl hi? Wyddost ti ddim be gaet ti.” 45

I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

6. Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble'r Aeth Haul y Bore?** Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Pwy yw Manuelito?
Ydy e'n bwysig i'r nofel? Pam? [3]
- (b) Beth sydd wedi digwydd i Haul y Bore cyn y cyfarfod hwn? [3]
- (c) Ysgrifennwch am **dri** pheth arall y mae'r Cotiau Glas yn eu gwneud i'r Indiaid yn ystod y nofel hon. [3]
- (ch) (i) Edrychwch ar arddull llinell 16 y darn.
“*Tynnodd esgidiau Canby yn ffyrnig oddi am ei draed a'u taflu nhw i'r tân.*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (ii) Edrychwch ar arddull llinellau 17-18 y darn.
“*Mae'r amser i ymbwyllo wedi pasio. Mae'r amser i fod yn feddal wedi pasio. Mae'r amser i rannu wedi pasio. Amser i ryfel ydi hi!*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (iii) Edrychwch ar arddull llinellau 20-21 y darn.
“*Barboncito? Herrero? Delgadito? Armijo? Dynion ydan ni! Mae gwaed coch y Navaho yn llifo yn ein gwythiennau!*”
Dywedwch pam y mae'r darn hwn yn effeithiol. [2]
- (d) Dychmygwch mai **chi yw Chico**.
Yn eich barn chi, **pa fath o gymeriad yw Kit Carson?** [5]
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd y mae'n ymddwyn.
Wrth ysgrifennu cofiwch mai chi yw Chico.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.
- (dd) Dychmygwch mai **chi yw Haul y Bore**.
Ysgrifennwch gofnod yn ei **dyddiadur** tua diwedd y nofel hon. [5]
- [25]

Roedd yna gyffro mawr wedi lledaenu trwy Geunant de Chelley pan ddaeth Manuelito'n ôl gyda Haul y Bore. Ysgydwai'r merched eu pennau'n drist wrth weld yr olwg oedd arni, ac roedd y dicter yn amlwg yn lleisiau'r llwyth cyfan wedi iddyn nhw glywed stori Quanah.

Mawr fu'r siarad a'r trafod. Roedd geiriau Manuelito'n cyfrif llawer gan mai ei deulu o oedd wedi dioddef fwyaf. Ac roedd o'n siarad iaith dial. 5

"Fydd y Navahos ddim ar eu pen eu hunain yn y rhyfel hwn. Fe ddaw Geronimo gyda ni – bydd enw Geronimo yn codi dychryn ar y dyn gwyn – a bydd Usen gyda ni. Hyd nes y caiff y Cotiau Glas eu lladd, fydd yna fyth heddwch mwy rhwng y Navahos a'r dyn gwyn!"

"Ymbwylla, Manuelito! Rwy'ti newydd ddychwelyd o fod yn siarad gyda Canby. Rwy'ti'n gwisgo'i esgidiau am dy draed..." 10

Camodd Manuelito at ei ferch. Gafaelodd ym mraich Haul y Bore a'i thywys at y tân. Dangosodd hi i'r cylch cyfan. Yna trodd, a chan ddynwared Herrero dywedodd yn goeglyd, "Ymbwylla, Manuelito!" Trodd at y pennaeth. "Herrero. Dyma fy merch. Fy merch a drawyd yn fud gan y Cotiau Glas! Fy merch a dreisiwyd yn ei gwendid! Fy merch y torrwyd pen ei baban yn ei gŵydd! Ac rwy'ti'n dweud 'Ymbwylla Manuelito'!" 15

Tynnodd esgidiau Canby yn ffrnig oddi am ei draed a'u taflu nhw i'r tân.

"Mae'r amser i ymbwylllo wedi pasio. Mae'r amser i fod yn feddal wedi pasio. Mae'r amser i rannu wedi pasio. Amser i ryfel ydi hi!"

Cododd murmur o gefnogaeth o blith y dorf. Edrychodd Manuelito ar y lleill yn eu tro.

"Barboncito? Herrero? Delgadito? Armijo? Dynion ydan ni! Mae gwaed coch y Navaho yn llifo yn ein gwythiennau!" 20

Cyn iddo fynd ymhellach clywsant sŵn carlamu gwyllt a rhuthrodd un o warchodwyr y Ceunant tuag atynt ar ei geffyl.

"Y Taflwr Rhaffau!" gwaeddodd. "Mae'r Taflwr Rhaffau ar ei ffordd."

* * *

Gallai Manuelito weld fod Kit Carson yn crynu gan gynddaredd. 25

Roedd Carson wedi synhwyro'n syth fod rhywbeth o'i le yng ngwersyll Ceunant de Chelley, pan welodd y llwyth cyfan yn cyfarfod o amgylch tân y pennaeth. Gwyddai ar ei union hefyd mai gwrando, a gwrando'n astud, fyddai ei orchwyl gyntaf. Roedd hi'n arwyddocaol mai Manuelito ac nid Herrero Grande oedd wedi cerdded ato i'w gyfarch.

"Manuelito! Cyfarchion ers sawl dydd!" 30

"Dydy'r Taflwr Rhaffau ddim wedi dewis diwrnod da i ymweld â'r Navahos!"

"Mae poen yn dy lais ac yn dy lygaid, Manuelito." Edrychodd o'i amgylch. "Mae dy bobl yn rhannu dy boen."

Oeddodd cyn ychwanegu, "Mi hoffwn innau rannu dy boen."

Amneidiodd Manuelito arno i ddisgyn oddi ar ei geffyl a dod at y cylch wrth y tân. Yna galwodd ar Quanah. 35

"Dywed dy stori, Quanah, a dywed hi i gyd!"